IS-DDEDDFWRIAETH

# 2017 Rhif (Cy40)

# DEDDF Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL (CYMRU) 2006

## Cyfarwyddydau Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru 2017

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *10 Hydref 2017* |
| *Yn dod i rym* | *11 Hydref 2017* |

Mae Gweinidogion Cymru yn rhoi'r Cyfarwyddydau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 19(1), 203(9) a (10) a 204(1) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**).

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Cyfarwyddydau hyn yw Cyfarwyddydau Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru 2017.

(2) Daw'r Cyfarwyddydau hyn i rym ar 11 Hydref 2017.

(3) Mae'r Cyfarwyddydau hyn wedi eu rhoi i Ymddiriedolaeth GIG Felindre(**2**) ac maent yn gymwys o ran Cymru.

### Dehongli

**2.** Yn y Cyfarwyddydau hyn—

ystyr "blwyddyn ariannol" ("*financial year*") yw cyfnod o un flwyddyn galendr sy'n dechrau ar 1 Ebrill;

ystyr "Cyfnod 1" ("*Stage 1*") yw haint hepatitis C gronig nad yw wedi datblygu'n Gyfnod II;

ystyr "Cyfnod II" ("*Stage II*") yw haint hepatitis C ddatblygedig pan fo, mewn perthynas â'r person heintiedig, un neu ragor o'r canlynol yn gymwys—

---

(**1**) 2006 p. 42.

(**2**) Ymddiriedolaeth GIG Felindre fel y'i sefydlwyd gan Orchymyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Felindre (Sefydlu) 1993 (O.S. 1993/2838) (fel y'i diwygiwyd).

(a) mae wedi ei asesu ar sail tystiolaeth feddygol (e.e. canlyniadau biopsi, profion gwaed, sganiau uwchsain, sganiau ffibro etc.) yn un sydd â sirosis;

(b) mae wedi cael diagnosis o brif ganser yr afu/iau;

(c) mae wedi cael diagnosis o lymffoma celloedd B nad yw'n lymffoma Hodgkins;

(d) mae wedi cael trawsblaniad afu/iau; neu

(e) mae ar restr aros i gael trawsblaniad afu/iau;

ystyr "Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru" ("*Wales Infected Blood Support Scheme*") yw'r cynllun a sefydlwyd gan Weinidogion Cymru i ddarparu cymorth ariannol, a gwasanaethau cynghori i bersonau, neu mewn cysylltiad â phersonau, sydd wedi eu heintio â hepatitis C, HIV neu â'r ddau ohonynt, o ganlyniad i gael gwaed neu gynhyrchion gwaed heintiedig yn ystod triniaeth a ddarparwyd gan y gwasanaeth iechyd yng Nghymru;

ystyr "Cynllun gan y DU" ("*UK Scheme*") yw cynllun cymorth a chynhorthwy gan y Deyrnas Unedig ar gyfer personau sydd wedi eu heintio â HIV neu hepatitis C, neu â'r ddau ohonynt, o ganlyniad i gael gwaed heintiedig fel rhan o driniaeth y GIG a'r taliadau wedi eu gwneud gan unrhyw un neu ragor o'r rhai a ganlyn—

(a) the Caxton Foundation sef yr ymddiriedolaeth elusennol o'r enw the Caxton Foundation sydd wedi ei chofrestru fel rhif elusen 1142529;

(b) Eileen Trust sef yr ymddiriedolaeth elusennol o'r enw Eileen Trust sydd wedi ei chofrestru fel rhif elusen 1028027;

(c) the MacFarlane Trust sef yr ymddiriedolaeth elusennol o'r enw the MacFarlane Trust sydd wedi ei chofrestru fel rhif elusen 298863;

(d) MFET Limited, cwmni preifat cyfyngedig drwy warant, Rhif Cwmni 7121661; ac

(e) the Skipton Fund Ltd, cwmni cyfyngedig drwy warant, Rhif Cwmni 5084964;

ystyr "y Cytundeb" ("*the Agreement*") yw'r Cytundeb Gweithredol a wnaed rhwng Gweinidogion Cymru ac Ymddiriedolaeth GIG Felindre ar 10 Hydref 2017 fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd;

ystyr "hawlogaeth flynyddol" ("*annual entitlement*") yw—

(a) y taliad yr oedd hawl gan y Person Cymhwysol i'w gael ym mlwyddyn ariannol 2016 – 2017, os bu farw'r Person Cymhwysol cyn neu ar 31 Mawrth 2016; neu

(b) y taliad y mae hawl gan y Person Cymhwysol i'w gael o dan y Cyfarwyddydau hyn yn y flwyddyn ariannol y mae'r Person Cymhwysol yn marw ynddi;

ystyr "partner" ("*partner*") yw person, ac eithrio priod, sy'n byw gyda Pherson Cymhwysol mewn perthynas sy'n debyg i'r berthynas honno sydd rhwng dau berson sy'n briod neu sydd mewn uniad cyfreithiol ffurfiol (megis partneriaeth sifil);

ystyr "Person Cymhwysol sy'n Trosglwyddo" ("*Transferring Qualifying Person*") yw person sydd wedi ei heintio â HIV neu hepatitis C, neu â'r ddau ohonynt, o ganlyniad i gael gwaed neu gynhyrchion gwaed heintiedig yn ystod triniaeth a ddarparwyd gan y gwasanaeth iechyd yng Nghymru, ac sydd eisoes wedi cael taliadau oddi wrth Gynllun gan y DU;

ystyr "Person Cymhwysol Newydd" ("*New Qualifying Person*") yw person sydd wedi ei heintio â HIV neu hepatitis C, neu â'r ddau ohonynt, o ganlyniad i gael gwaed neu gynhyrchion gwaed heintiedig yn ystod triniaeth a ddarparwyd gan y gwasanaeth iechyd yng Nghymru, nad yw wedi cael taliadau eisoes oddi wrth Gynllun gan y DU neu oddi wrth Gynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru;

ystyr "Personau Cymhwysol" ("*Qualifying Persons*") yw Personau Cymhwysol Newydd a Phersonau Cymhwysol sy'n Trosglwyddo;

ystyr "plentyn dibynnol" ("*dependent child*") yw person o dan 18 oed, neu o dan 21 oed os yw mewn addysg lawnamser;

ystyr "priod" ("*spouse*") yw person sy'n briod â Pherson Cymhwysol, neu sydd mewn uniad cyfreithiol ffurfiol ag ef (megis partneriaeth sifil);

ystyr "y Taliad Profedigaeth" ("*the Bereavement Payment*") yw taliad a wneir yn unol â chyfarwyddyd 5(1).

**Cymhwystra**

**3.** Caniateir i daliadau gael eu gwneud o dan Gynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru yn unol â'r Cytundeb—

(a) i Bersonau Cymhwysol; a

(b) i briodau, partneriaid, neu blant dibynnol sy'n parhau'n fyw ar ôl i Bersonau Cymhwysol farw.

**Taliadau i Bersonau Cymhwysol**

**4.** Mae taliadau y caniateir iddynt gael eu gwneud o dan Gynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru wedi

eu nodi yn yr Atodlenni i'r Cyfarwyddydau hyn fel a ganlyn—

(a) Atodlen 1 ar gyfer taliadau i Bersonau Cymhwysol sydd â hepatitis C - Cyfnod I;

(b) Atodlen 2 ar gyfer taliadau i Bersonau Cymhwysol sydd â hepatitis C - Cyfnod II;

(c) Atodlen 3 ar gyfer taliadau i Bersonau Cymhwysol sydd â HIV;

(d) Atodlen 4 ar gyfer taliadau i Bersonau Cymhwysol sydd â hepatitis C a HIV; ac

(e) Atodlen 5 ar gyfer taliadau eraill.

**Priodau a phartneriaid sydd wedi cael profedigaeth**

**5.**—(1) Caniateir i Daliad Profedigaeth gael ei wneud ar ffurf cyfandaliad untro o £10,000 i briod neu bartner sy'n parhau'n fyw ar ôl i Berson Cymhwysol farw.

(2) Yn ychwanegol at y Taliad Profedigaeth, pan fo Person Cymhwysol yn marw, mae hawl gan ei briod neu ei bartner sy'n parhau'n fyw i gael taliad cyfanredol sy'n gyfwerth â 2.25 x gwerth hawlogaeth flynyddol y Person Cymhwysol hwnnw.

(3) Pan fo'r Person Cymhwysol yn marw cyn neu ar 31 Mawrth 2017, caniateir i'r taliad cyfanredol y cyfeirir ato ym mharagraff (2) gael ei dalu drwy gyfandaliad untro.

(4) Pan fo'r Person Cymhwysol yn marw ar neu ar ôl 1 Ebrill 2017, caniateir i'r taliad cyfanredol y cyfeirir ato ym mharagraff (2) gael ei dalu drwy daliadau misol cyfartal am gyfnod nad yw'n hwy na thair blynedd o ddyddiad marwolaeth y Person Cymhwysol.

(5) Nid oes unrhyw daliad ychwanegol i gael ei wneud o dan baragraff (1) pan fo'r priod neu'r partner sy'n parhau'n fyw eisoes wedi cael cyfandaliad untro mewn cysylltiad â'r Person Cymhwysol hwnnw.

**Plant dibynnol**

**6.**—(1) Pan fo Person Cymhwysol yn marw ac nad oes ganddo briod neu bartner sy'n parhau'n fyw ar adeg ei farwolaeth, caniateir i'r Taliad Profedigaeth o dan gyfarwyddyd 5(1) a'r taliad o dan gyfarwyddyd 5(2) neu (3), gael ei dalu i blant dibynnol y Person Cymhwysol hwnnw.

(2) Os oes gan y Person Cymhwysol fwy nag un plentyn dibynnol, yna caniateir i'r taliadau y cyfeirir atynt ym mharagraff (1) gael eu talu i bob plentyn dibynnol mewn cyfrannau cyfartal.

*Y Dr Chris Jones,*
Y Dirprwy Brif Swyddog Meddygol, Llywodraeth Cymru, o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon, un o Weinidogion Cymru
Dyddiad

# ATODLEN 1

## Personau Cymhwysol sydd â hepatitis C - Cyfnod I

**1.** Caniateir i daliad o £4,500 gael ei wneud i Bersonau Cymhwysol sydd â hepatitis C - Cyfnod I ym mhob blwyddyn ariannol.

**2.** Caniateir i gyfandaliad untro o £20,000 gael ei wneud i Bersonau Cymhwysol Newydd sydd â hepatitis C - Cyfnod I.

# ATODLEN 2

## Personau Cymhwysol sydd â hepatitis C - Cyfnod II

**1.** Caniateir i daliad o £17,500 gael ei wneud i Bersonau Cymhwysol sydd â hepatitis C - Cyfnod II ym mhob blwyddyn ariannol.

**2.** Caniateir i gyfandaliad untro o £50,000 gael ei wneud i Bersonau Cymhwysol Newydd sydd â hepatitis C - Cyfnod II.

# ATODLEN 3

## Personau Cymhwysol sydd â HIV

**1.** Caniateir i daliad o £17,500 gael ei wneud i Bersonau Cymhwysol sydd â HIV ym mhob blwyddyn ariannol.

**2.** Caniateir i gyfandaliad untro o £20,000 gael ei wneud i Bersonau Cymhwysol Newydd sydd â HIV.

# ATODLEN 4

## Personau Cymhwysol sydd â hepatitis C a HIV

**1.** Caniateir i daliad o £21,500 gael ei wneud i Bersonau Cymhwysol sydd â hepatitis C - Cyfnod I a HIV ym mhob blwyddyn ariannol.

**2.** Caniateir i daliad o £34,500 gael ei wneud i Bersonau Cymhwysol sydd â hepatitis C - Cyfnod II a HIV ym mhob blwyddyn ariannol.

**3.** Caniateir i gyfandaliad untro o £40,000 gael ei wneud i Bersonau Cymhwysol Newydd sydd â hepatitis C - Cyfnod I a HIV.

**4.** Caniateir i gyfandaliad untro o £70,000 gael ei wneud i Bersonau Cymhwysol Newydd sydd â hepatitis C - Cyfnod II a HIV.

# ATODLEN 5

## Taliadau Eraill

Caniateir i daliadau yn ôl disgresiwn, ar ffurf grantiau, gael eu gwneud er mwyn rhoi cymorth ariannol sy'n ystyried caledi ariannol penodol a ddaw i ran—

(a) Personau Cymhwysol o ganlyniad i salwch; a

(b) priodau, partneriaid a phlant dibynnol sy'n parhau'n fyw ar ôl marwolaeth Personau Cymhwysol, o ganlyniad i farwolaeth Person Cymhwysol neu o ganlyniad i ofalu am Berson Cymhwysol cyn iddo farw.